Addysg, Addysg, Addysg

Oed: 8+

Gweithgaredd

Gofynnwch i'r disgyblion dreulio ychydig funudau i feddwl beth mae'r gair 'addysg' yn ei gyfleu iddyn nhw. Yna gallen nhw gofnodi eu meddyliau ar ffurf map meddwl neu ddarluniad, cyn rhannu eu syniadau efallai gyda phartner ac yna gyda'r dosbarth. Trafodwch eu sgiliau – pethau maen nhw'n gallu eu gwneud. Ble maen nhw wedi dysgu'r sgiliau hyn? Pwy fu'n eu helpu?

Yna gallech ofyn i'r disgyblion drafod y manteision neu'r 'pethau da' ynglŷn â gallu mynd i'r ysgol.

Ar ôl trafod safbwyntiau'r disgyblion, esboniwch wrthyn nhw (drwy ddefnyddio'r nodiadau cefndir a ddarparwyd) sut mae hawliau i addysg i bawb wedi'u datgan yn benodol fel Hawl Ddynol yn y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol ac yn Erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r hawliau hyn wedi'u diogelu yn y gyfraith yn y DU a nifer o wledydd eraill.

Mae hwn hefyd yn fan da i gyflwyno pwyntiau perthnasol eraill o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (gan ddefnyddio'r un nodiadau) gan fod y rhain yn darparu'r cyd-destun i bobl ifanc gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol.

Nodiadau Cefndir: Addysg fel hawl ddynol

Mae hawl ddynol yn rhywbeth sy'n hollol angenrheidiol i fyw bywyd urddasol a diogel. Rhai enghreifftiau o hawliau dynol sylfaenol yw bwyd, dŵr a lloches. Mae Datganiad Cyffredinol y CU ar Hawliau Dynol (1948) yn cydnabod addysg fel hawl ddynol sylfaenol. Mae hyn yn golygu bod hawl gan bob person i gael o leiaf addysg sylfaenol, yn rhad ac am ddim. Mae Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (1989) yn mynd hyd yn oed ymhellach, gan bennu bod hawl gan blant i addysg safon benodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau "wneud addysg gynradd yn orfodol ac ar gael i bawb", ac mae'n dweud bod hawl gan blant i gael addysg sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd cyfrifol, gweithgar fel oedolyn mewn cymdeithas rydd sy'n parchu eraill a'r amgylchedd.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol

ANFON FY FFRIND 08

Addysg, Addysg, Addysg

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cytunwyd y Confensiwn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1989 a'i lofnodi gan 191 o 193 o wledydd, gan ei gwneud yn ddeddf hawliau hollol fyd-eang. Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, yng Ngenefa, yn cadw llygad ar y ffordd ar sut mae gwledydd yn ei wneud. Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod y Confensiwn yn cydnabod hawl plant i feddwl a chredu beth maen nhw eisiau, yn ogystal â hawl plant i addysg o safon benodol ac i'w mynegi eu hunain yn rhydd. Ymhellach, mae'n dweud ei bod yn rhaid ystyried safbwyntiau plant ar bob mater sy'n effeithio arnyn nhw.

Dyma grynodebau o rai o'r erthyglau:

- Erthygl 12: Yr hawl i fynegi barn yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio arno/arni ac i gael ystyriaeth i'r farn honno.
- Erthygl 13: Yr hawl i fynegi safbwyntiau, a chael syniadau a gwybodaeth a'u trosglwyddo, ni waeth am ffiniau.
- Erthygl 14: Yr hawl i feddwl a chredu fel y mynnan nhw ac ymarfer crefydd, gydag arweiniad priodol gan eu rhieni.
- Erthygl 15: Yr hawl i gwrdd gyda'i gilydd a phlant eraill, ac ymuno â chymdeithasau a'u ffurfio.
- Erthygl 28: Yr hawl i addysg, gan gynnwys addysg gynradd yn ddi-dâl ac yn orfodol. Dylai gwledydd goludog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.
- Erthygl 29: Yr hawl i gael addysg sy'n ei baratoi/pharatoi ar gyfer bywyd cyfrifol, gweithgar fel oedolyn mewn cymdeithas rydd sy'n parchu eraill a'r amgylchedd.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i gael addysg

Eto mae dros 72 miliwn o blant – y rhan fwyaf yn ferched – ar draws y byd yn colli'r cyfle i arfer yr hawl ddynol sylfaenol honno. Mae llawer o resymau ynghylch pam y mae cynifer o blant yn dal i golli'r cyfle i gael addysg.

Problem y diffyg athrawon

Un o'r rhesymau hynny yw prinder athrawon. Wrth i fwy a mwy o blant ar draws y byd fynd i'r ysgol, mae'r angen am athrawon wedi'u hyfforddi'n iawn yn cynyddu. Bellach mae angen o leiaf 18 miliwn mwy o athrawon yn y byd! Mae llawer o resymau dros y prinder hwn o athrawon, ond mae'n golygu bod disgyblion yn aml yn cael eu troi ymaith.

Hyd yn oed pan fydd plant yn gallu mynd i'r ysgol, mae'r prinder athrawon yn golygu eu bod efallai'n dal i golli'r cyfle i gael addysg. Efallai y byddan nhw'n cael bod y diwrnod ysgol yn para dim ond dwy neu dair awr, neu eu bod mewn dosbarthiadau o hyd at 150 o ddisgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn addysgu a dysgu!

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol